Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Maesincla
# Maesincla Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 1DF

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ysgol Gynradd Maesincla

Mae Ysgol Maesincla wedi ei lleoli yn ardal Maesincla, yn nhref Caernarfon, Gwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 269 disgybl ar y gofrestr yn gyfredol, gan gynnwys 30 oed meithrin rhan-amser. Mae ychydig dros 31% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r canran cenedlaethol sy'n 18%. Mae 84% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod ychydig dros 34% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol uwch na'r canran cenedlaethol, sy'n 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2011 a phenodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Ionawr 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Maesincla yn gymuned hapus, weithgar a hynod gynhwysol lle mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn. Mae'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn hollol naturiol gyda'i gilydd ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ac yn eu cymhwyso'n hyderus mewn amrediad difyr o gyd destunau ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon a'r staff cefnogi yn cyd-weithio'n effeithiol er mwyn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol. Mae'r dosbarthiadau maethu yn ymateb yn hynod effeithiol i anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion. O ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n rhan o deulu'r ysgol, ac yn cyfranogi'n llawn yn eu dysgu.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill yn gosod cyfeiriad strategol ardderchog ar gyfer yr ysgol. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau trwyadl a chadarn iawn, sydd wedi gwreiddio'n llwyddiannus, gan arwain at ddatblygiadau cadarnhaol yn y ddarpariaeth. Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth gadarn iawn o'u rôl wrth weithredu blaenoriaethau datblygiad yr ysgol, a sicrhau gwelliant.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella uwch fedrau darllen y disgyblion

A2 Darparu cyfleoedd cyson i'r disgyblion wneud penderfyniadau ynglŷn a sut a beth y maent yn ei ddysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd ysgol gynradd Maesincla i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag effaith dosbarthiadau maethu ar ddatblygiad disgyblion i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol mae gan y mwyafrif o ddisgyblion fedrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol islaw'r hyn sy'n arferol ar gyfer eu hoed. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da dros amser. Mae'r rhan fwyaf yn dwyn eu dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus mewn gwersi ac yn arddangos brwdfrydedd tuag at eu gwaith.

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion y dosbarth meithrin yn gymharol ddihyder ar lafar, ac mae hyn yn adlewyrchu eu man cychwyn cymharol isel. Fodd bynnag, maent yn gwneud cynnydd cadarn yn fuan. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth derbyn yn siarad yn hyderus mewn amrywiol gyd-destunau, er enghraifft wrth ddisgrifio pwerau eu hoff archarwr. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn mynegi eu hunain yn huawdl, er enghraifft wrth iddynt drafod gwahanol esgyrn y daethant o hyd iddynt yn y pwll tywod. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwrando'n ofalus ar eu cymheiriaid ac oedolion, ac yn trafod yn aeddfed mewn sgyrsiau dosbarth. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn gwbl naturiol ac mae ganddynt eirfa eang a chyfoethog. Mae iaith lafar y disgyblion yn y ddwy iaith, lle'n briodol, yn gryfder.

Yn fuan ar ôl cychwyn yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cynnar yn gyflym. Maent yn dod i adnabod a defnyddio llythrennau i greu geiriau cyfarwydd, unsill yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn dangos dealltwriaeth dda o atalnodi, ac maent yn defnyddio strategaethau priodol wrth geisio darllen geiriau anghyfarwydd.

Ar draws cyfnod allweddol 2 mae llawer o'r disgyblion yn darllen gyda hyder cynyddol yn y ddwy iaith, yn unol â'u hoed a gallu. Maent yn mwynhau trafod eu llyfrau ac yn talu sylw dyledus i atalnodi er mwyn gwneud synnwyr o'r testun. Mae llawer yn dod o hyd i wybodaeth o destunau ffeithiol, er enghraifft wrth drafod eu gwaith ar yr ail ryfel byd yn gwbl ddiffwdan. Fodd bynnag, nid yw uwch fedrau darllen llawer o ddisgyblion wedi datblygu'n llawn. Mae hyn yn cyfyngu eu gallu i lithr ddarllen a chael syniad cyffredinol o destun heb ei ddarllen yn fanwl.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau syml sy'n cyfleu ystyr, yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn ysgrifennu darnau cynyddol ymestynnol mewn cyd-destunau cyfarwydd yn llwyddiannus. Er enghraifft maent yn ail ysgrifennu ac addasu stori Owain a'r Dinosor.

Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrediad da o ffurfiau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft maent yn ysgrifennu adroddiad ffeithiol manwl am Batagonia fel rhan o'u gwaith thema.

Erbyn Blwyddyn 5 a 6, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n aeddfed ac yn hyderus mewn amrediad o gyd-destunau ffeithiol a chreadigol. Maent yn datblygu ac addasu eu cynnwys trwy ddrafftio eu gwaith a chraffu'n fanwl ar y cynnwys er mwyn ei ddatblygu hyd eithaf eu gallu, yn y Gymraeg a Saesneg. Enghraifft nodedig yw'r adroddiad gan lygad dyst i'r bomio yn ystod y blits yn yr ail ryfel byd.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfri'n hyderus ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o fondiau rhif. Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 afael gadarn ar briodweddau gwahanol siapiau, ac maent yn defnyddio data i greu graffiau gan ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol. Maent yn defnyddio unedau mesur safonol yn hyderus, er enghraifft wrth adeiladu lloches o faint penodol. Mae llawer yn defnyddio offer pwyso yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ymchwilio i bwysau baw dinosor yn y ddarpariaeth barhaus.

Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r pedair rheol rhif yn hyderus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o waith siâp a gofod. Maent yn cymhwyso'u medrau rhif yn llwyddiannus wrth ddatrys problemau. Er enghraifft wrth gymharu tymheredd mewn gwahanol ddinasoedd ar draws y Deyrnas Unedig.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau TGCh cadarn. Maent yn cymhwyso eu medrau yn effeithiol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn creu cyflwyniadau am gadw'n ddiogel ar y we. Maent yn mewngofnodi i wahanol raglenni yn hyderus, gan arbed ac adalw eu gwaith yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n fedrus ar eu dysgu blaenorol. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn defnyddio amrywiaeth eang o raglenni yn bwrpasol i atgyfnerthu eu gwaith. Er enghraifft, maent yn dewis y dulliau mwyaf effeithiol o ddefnyddio camera wrth baratoi i greu ffilm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n unigolion hyderus a charedig o fewn ethos hynod ofalgar, gynhaliol a chynhwysol yr ysgol. Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os fyddant yn poeni am rywbeth. Mae'r rhan fwyaf yn parchu gwerthoedd yr ysgol ac yn cymdeithasu'n ofalgar gyda'u cymheiriaid.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch a chwrteisi at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Yn ystod eu gweithgareddau ac o amgylch yr ysgol mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Maent yn cyd chwarae'n aeddfed gyda'u ffrindiau, ac yn dangos gofal dros eraill. Mae'r disgyblion yn parchu amrywiaeth ac yn oddefgar o wahaniaethau. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd tegwch a chyfleoedd cyfartal. Mae disgyblion sy'n wynebu heriau o ran cynnal ymddygiad da yn cael eu cefnogi'n effeithiol a'u parchu gan eu cymheiriaid.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn barod i ddysgu yn brydlon ar ddechrau gwersi. Maent yn ymroi'n llawn i'w gwaith ac yn cyfrannu'n dda yn ystod eu gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio am gyfnodau priodol i'w hoed a gallu. Maent yn datblygu medrau dyfalbarhad wrth wynebu anawsterau yn hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n aeddfed ac yn sylweddoli pwysigrwydd ymateb i adborth wrth geisio gwella eu gwaith. Maent yn gwrando ar safbwyntiau eraill yn dda, er enghraifft wrth drafod syniadau i'w rhannu gyda'r cyngor lleol am gynyddu nifer o finiau sbwriel yn ardal Maesincla.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos balchder yn eu hysgol ac yn fodlon iawn i chwarae eu rôl ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn frwdfrydig ac mae eu rôl fel arweinwyr yn datblygu'n dda. Mae'r cyngor ysgol yn ystyried awgrymiadau a barnau disgyblion eraill i wella amgylchedd yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi codi arian i

sicrhau offer dringo ar gyfer y buarth trwy drefnu taith gerdded noddedig. Mae aelodau'r cyngor eco yn annog y disgyblion eraill i ail gylchu ac arbed ynni trwy ddiffodd y goleuadau a chadw'r drysau ar gau i arbed gwres. Mae'r arweinwyr digidol yn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau TGCh yn llwyddiannus. Maent yn cyflwyno gwybodaeth i'r ysgol a'r rhieni sy'n hybu eu dealltwriaeth o ddiogelwch ar lein yn llwyddiannus.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, a chadw'n heini. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd glendid personol gan gynnwys gofalu am eu dannedd. Maent hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth dda am effaith cam-drin sylweddau. Maent yn manteisio yn gyson ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod gwersi ac ar amser egwyl. Mae llawer o ddisgyblion yn cystadlu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau chwaraeon yn lleol, yn rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn codi eu hyder ac yn meithrin ynddynt fedrau cyd-weithio llwyddiannus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrediad o ddulliau addysgu sy'n sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn ymroi yn llawn i'w tasgau. Mae rhan fwyaf yr addysgu ar draws yr ysgol yn ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r holl staff yn defnyddio dulliau cyson wrth arwain y dysgu, sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar hyder a chynnydd disgyblion. Mae'r staff yn annog y disgyblion i ddyfalbarhau wrth wynebu anawsterau. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn arddangos dycnwch da wrth weithio.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol trwy gynnig iddynt amrediad o weithgareddau dysgu symbylus. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion, ac mae lefel yr her yn gyson â'u gallu ym mron pob gwers. Mae'r athrawon, gyda chefnogaeth effeithiol y cymorthyddion, yn darparu amrediad priodol o weithgareddau i'r disgyblion, ac yn eu cynnal a'u hannog i lwyddo yn fedrus. O ganlyniad, mae disgyblion o bob gallu'n gwneud cynnydd da. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau creadigol yn dda, er enghraifft trwy astudio gwaith arlunwyr Cymreig fel Kyffin Williams. Maent yn gwneud defnydd llwyddiannus o asiantaethau allanol i ddatblygu medrau cerddorol y disgyblion. Enghraifft nodedig o hyn yw'r prosiect lleol, lle mae arbenigwyr cerddorol yn gweithio gyda gwahanol ddosbarthiadau tros gyfnod. Mae'r disgyblion yn dysgu am draw a rhythm mewn cerddoriaeth, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog ymarferol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu medrau, eu hyder a'u lles.

Ar draws yr ysgol, mae'r staff yn sbarduno'r disgyblion i weithio'n gydwybodol, i ddyfalbarhau gyda'u tasgau ac i ddatblygu meddylfryd o dwf. O ganlyniad mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da, beth bynnag fo'u gallu. Fodd bynnag, mewn ychydig o weithgareddau, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau bwriadus ynglŷn â sut a beth maent am ddysgu.

Mae'r athrawon yn rhannu nodau eglur ar gyfer gwersi, ac o'r cychwyn yn y dosbarth meithrin, yn rhannu meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion er mwyn adeiladu eu gallu i werthuso eu gwaith eu hunain, a mesur eu llwyddiant. Maent yn cynllunio

cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu meini prawf llwyddiant eu hunain ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn deall sut i werthuso eu gwaith yn erbyn meini prawf penodol.

Mae'r staff yn darparu adborth llafar cyson ac effeithiol i'r disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymateb i adborth ysgrifenedig. Rhoddir cyfleoedd effeithiol a rheolaidd i ddisgyblion ar draws yr ysgol fyfyrio ar adborth, ac i werthuso gwaith cymar yn erbyn meini prawf penodol. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt wneud i wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn cynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae staff yn cyd gynllunio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau bod cysondeb ym mhrofiad dysgu'r disgyblion ar draws y gwahanol flynyddoedd. Mae'r cynlluniau gwaith yn darparu ystod eang ac effeithiol o brofiadau dysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r athrawon yn rhannu arbenigedd yn llwyddiannus yn fewnol a chydag ysgolion eraill yn lleol.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llawn. Mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol a hyblyg o adnoddau'r ysgol, gan gynnwys yr ardaloedd tu allan er mwyn datblygu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus. O'r cychwyn cyntaf, mae'r gweithgareddau yn annog annibyniaeth ymysg y disgyblion ac o ganlyniad mae llawer ohonynt yn datblygu'n ddysgwyr cynyddol annibynnol yn gynnar. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cynllunio'r ddarpariaeth barhaus a'r ddarpariaeth wedi ei chyfoethogi'n effeithiol, gan sicrhau amrediad diddorol o brofiadau ar gyfer y disgyblion.

Mae gofynion y fframweithiau llythrennedd, rhifedd a TGCh wedi eu hymgorffori'n gadarn i gynlluniau gwaith yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio amrediad eang a chyfoethog o weithgareddau dysgu sy'n caniatáu i'r disgyblion ddatblygu eu hyder yn y medrau, a'u hymarfer mewn amrediad cyfoethog o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth meithrin yn cyfri sawl bloc sydd ei angen i adeiladu twr sydd mor dal â nhw eu hunain, ac mae disgyblion Blwyddyn 2 yn gweithio'n annibynnol i greu cuddfan sy'n 30cm o hyd a lled.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn iawn i olrhain cynnydd disgyblion ac mae arweinwyr ac athrawon yn gwneud defnydd effeithiol iawn ohonynt. Maent yn tynnu ar ystod fanwl a thrylwyr o wybodaeth am gyflawniad ac agweddau ar les disgyblion. Un o gryfderau pennaf yr ysgol yw'r modd hynod lwyddiannus y mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion. Mae'r staff yn dadansoddi a defnyddio canlyniadau'r holl weithgareddau ac asesiadau hyn yn hynod effeithiol er mwyn mesur a hyrwyddo cynnydd. Mae'r trefniadau ar gyfer adnabod, ymateb a gweithredu ar gyfer anghenion dysgwyr penodol yn drylwyr a llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynnal dosbarthiadau maethu o ansawdd ragorol sydd wedi eu cynllunio'n gelfydd iawn. Mae'r ddarpariaeth hon yn cwrdd ag anghenion disgyblion bregus yn hynod effeithiol a llwyddiannus. Un o gryfderau pennaf y ddarpariaeth hon yw'r modd hynaws y mae'r staff yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol cadarn. O ganlyniad, mae'r disgyblion sydd yn y dosbarthiadau hyn yn datblygu dealltwriaeth gadarn iawn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn creu

perthynas dda gydag eraill. Mae'r trefniadau pontio sy'n bodoli rhwng y dosbarthiadau anwytho a'r brif ffrwd yn hynod llwyddiannus. Mae'r staff yn cynnwys disgyblion yn llawn yng ngweithgareddau dosbarthiadau'r brif ffrwd, ac o ganlyniad, maent yn cyfranogi'n fwriadus gyda'u cymheiriaid. Ar draws yr holl ddosbarthiadau, mae gan y staff ddisgwyliadau uchel a chyson o ran ymddygiad disgyblion. Mae'r staff yn gweithredu rheolau a strategaethau syml yn llwyddiannus a chyson er mwyn sicrhau bod y gymuned ddysgu yn un hapus a chynhwysol.

Mae'r ysgol yn defnyddio dulliau creadigol iawn o gynnwys rhieni yng ngwaith eu plant. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r cyfnodau rheolaidd a ddarperir i rieni a gofalwyr ymweld â dosbarthiadau a mynychu gwersi llythrennedd a rhifedd gyda'u plant. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd gyda rhieni ac ansawdd da iawn yr adroddiadau ysgrifenedig iddynt ar gynnydd a datblygiad eu plant yn rhoi gwybodaeth drylwyr a gwerthfawr iddynt. O ganlyniad mae gan yr ysgol a'r rhieni berthynas agos a chynhaliol iawn. Mae hon yn nodwedd gadarnhaol a llwyddiannus iawn o waith yr ysgol.

Mae'r arweinwyr ac athrawon yn olrhain medrau rhifedd a llythrennedd y disgyblion yn ofalus iawn. Maent yn paratoi gweithgareddau pwrpasol i gwrdd ag anghenion disgyblion o bob gallu. Mae'r rhaglenni ymyrraeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Mae'r cynlluniau dysgu unigol yn cynnwys targedau manwl a mesuradwy ac yn ymateb yn dda iawn i anghenion penodol y disgybl. Maent yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd ac yn cael eu trafod gyda rhieni a'r disgybl. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd byw yn iach. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn hyrwyddo diet cytbwys a chadw'n heini yn llwyddiannus. Er enghraifft, trwy gynnig amrediad effeithiol o weithgareddau allgyrsiol, a thrwy weithgareddau penodol fel yoga, mae'r ysgol yn annog disgyblion i ymarfer eu corff yn rheolaidd. Mae'r athrawon yn hyrwyddo ymwybyddiaeth gadarn o ddiogelwch ar lein ymysg y disgyblion yn effeithiol iawn. Trwy ymweliadau gan asiantaethau lleol fel yr heddlu, mae'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn deall peryglon camddefnyddio sylweddau.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion trwy ystod o wasanaethau a chyfnodau penodol eraill. Mae'n trefnu ymweliadau rheolaidd i ardaloedd lleol i gefnogi eu gwaith thema. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn adnabod eu hardal leol yn dda iawn ac yn dangos dealltwriaeth drwyadl o ddiwylliant Cymru. Mae'r ysgol yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o gredoau a chrefyddau eraill yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn eu haddysgu am ŵyl Divali a'r flwyddyn newydd Tsieineaidd. Mae'r ystod o ymwelwyr gan gynnwys gweithdai cerddorol wythnosol a gweithdai artistiaid amrywiol yn cyfrannu yn llwyddiannus iawn at allu'r disgyblion i fentro yn greadigol ac i ddyfalbarhau gyda'u gwaith.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae gweithdrefnau rheoli'r ysgol yn drefnus, trylwyr ac yn hynod effeithiol. Mae gweledigaeth y pennaeth wedi ei seilio'n gadarn ar sicrhau lles a chodi safonau pob

disgybl. Mae amcanion strategol yr ysgol yn cefnogi'r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn. Mae pob aelod o'r staff yn deall eu cyfrifoldebau yn drylwyr ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol iawn. Mae medrau arwain y staff ar bob lefel wedi datblygu'n llawn ac mae effaith eu gwaith ar ansawdd yr addysgu ac ar safonau'r disgyblion yn amlwg iawn. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn rhannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth ymysg ei gilydd yn hynod effeithiol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r ethos o gydweithio fel tîm yn gryfder yn yr ysgol.

Mae trefniadau monitro ansawdd yr addysgu yn effeithiol iawn. Mae arsylwadau sesiynau dysgu'r pennaeth yn mynd law yn llaw gyda rhaglen fentora o dan arweinyddiaeth yr athrawon. O ganlyniad, mae cydbwysedd da iawn yn bodoli rhwng y lefel o her a'r gefnogaeth gynhaliol i'r staff. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at sicrhau ansawdd addysgu da a chyson ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn llwyddo i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn drwyadl ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd y disgyblion. Un o gryfderau pennaf yr ysgol yw'r modd mae'r arweinwyr wedi mynd ati i leihau effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth hynod drylwyr am waith yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n llawn at y broses hunanwerthuso ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'r arweinwyr i osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu'r ysgol. Trwy graffu ar lyfrau, olrhain cynnydd y disgyblion a chynnal teithiau dysgu, mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl am berfformiad yr ysgol. Mae eu gwybodaeth yn eu galluogi i fod yn ffrindiau beirniadol llwyddiannus.

Mae gan holl aelodau'r staff ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r trefniadau hunanwerthuso yn effeithiol, yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth ddibynadwy. Mae cynllun gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r broses hunanwerthuso. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu pwrpasol a manwl. Mae'r arweinwyr yn mesur cynnydd yn rheolaidd ac yn drylwyr ac yn ymateb yn gyflym i addasu'r camau gweithredu pan fo'r angen. O ganlyniad, mae'r cynllun gwella yn arwain gwaith yr ysgol yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu lwyddiannus iawn. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn effeithlon ac yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion staff unigol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd cyfoethog i staff wella eu harfer. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant, mae'r staff wedi creu ethos arbennig iawn yn yr ysgol. Maent yn modelu'r arfer ardderchog o ddangos parch a chwrteisi at eraill yn hynod fedrus. O ganlyniad, mae'r ysgol yn lle diogel, hapus lle gall pawb ddysgu'n gynhyrchiol. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad y staff fel arweinwyr yn hynod effeithiol o fewn yr ysgol a thu hwnt. Er enghraifft, mae aelodau'r staff yn arwain ar feysydd penodol ar draws yr awdurdod lleol, fel darparu cymorth ychwanegol i hyrwyddo lles disgyblion bregus.

Mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau'n effeithlon ac yn gymesur. Mae digon o athrawon profiadol a chymorthyddion effeithiol i weithredu'r cwricwlwm yn

llwyddiannus.  Mae'r cymorthyddion yn gaffaeliad i'r ysgol.  Maent yn cydweithio'n hynod lwyddiannus gyda'r athrawon i sicrhau gofal a chymorth rhagorol ar gyfer y disgyblion.  Mae gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â'i blaenoriaethau strategol. Mae'r arweinwyr yn cadw llygad gofalus ar y gwariant i sicrhau gwerth am arian. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da iawn o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles y rheini sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  24/04/2019